Pryniant arfaethedig Dwr Cymru Cyfyngedig gan Glas Cymru Cyfyngedig – Diwygiadau arfaethedig i'r drwydded

Heddiw, bu Ofwat yn cyhoeddi *Pryniant Arfaethedig Dwr Cymru Cyfyngedig gan Glas Cymru Cyfyngedig – Papur sefyllfa gan Ofwat*. Yn Atodiad B y papur hwn, amlinellodd Ofwat bwrpas ac egwyddorion bras amodau'r drwydded a gynigiwyd gan Ofwat a chyfeiriodd at y ddogfen hon am fanylion pellach.

Os bydd y cynigion yn cael eu derbyn, bydd Ofwat yn gofyn i Glas gytuno ar becyn o ddiwygiadau trwydded ac amodau trwydded newydd. Amlinellir y rhain isod ynghyd â'r diwygiadau trwydded a gytunwyd gan Western Power Distribution ar ôl iddo brynu Dwr Cymru.

Os yw Glas yn cytuno ar y diwygiadau hyn, bydd Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Dwr (y Cyfarwyddwr) yn cychwyn cyfnod o ymgynghoriad statudol arnynt. Os na fydd Glas yn cytuno i'r diwygiadau arfaethedig, mae gan y Cyfarwyddwr y pŵer i'w cyfeirio at y Comisiwn Cystadlu am benderfyniad.

Petai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwrthwynebu diwygiad arfaethedig, mae ganddo'r pŵer i ofyn i'r Cyfarwyddwr beidio â'i weithredu. Petai'r Cyfarwyddwr yn ystyried y byddai peidio â diwygio yn groes i fuddiant cyhoeddus, gallai gyfeirio'r diwygiad at y Comisiwn Cystadlu.

Mae'r testun mewn teip tywyll yn ymwneud â phwrpas yr amod/diwygiad trwydded a gellir cyfeirio ato yn Atodiad B *Pryniant Arfaethedig Dwr Cymru Cyfyngedig gan Glas Cymru Cyfyngedig– Papur sefyllfa gan Ofwat*. Mae'r testun nad yw mewn inc tywyll yn rhoi mwy o fanylion.

<u>Prynu gwasanaethau</u>

Amod trwydded newydd sy'n gofyn i Dwr Cymru gyflwyno Cynllun Pryniant i'r Cyfarwyddwr gan gynnwys cyfarwyddyd ar reolaeth fewnol, i'w gyhoeddi gan y Cyfarwyddwr i sicrhau bod Dwr Cymru yn cwrdd â'i rwymedigaethau cyfreithiol a'i fod yn gallu cyflawni ei swyddogaethau.

1 Mae angen yr amod hwn i sicrhau bod y Penodedig yn cyflawni tendro cystadleuol effeithiol a theg o ba bynnag wasanaethau y mae'n penderfynu, o'i bryd i'w gilydd, i beidio â'u darparu ei hun wrth berfformio'r Gweithgareddau Rheoledig. Os bydd unrhyw un o'r gwasanaethau hynny eisoes wedi eu contractio i'w perfformio gan drydydd parti ar y dyddiad pan ddaw'r amod hwn yn effeithiol, bydd angen i'r gwasanaethau hynny fod yn agored i dendro cystadleuol neu eu gwneud yn fewnol.

2 Rhaid i holl bryniant gwasanaethau gan y Penodedig gydymffurfio â'r gyfraith – yn enwedig Rheoliadau Trosglwyddo Ymrwymiadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981, Rheoliadau Contract Gwasanaethau Cyhoeddus 1996 a Deddf Cystadleuaeth 1998.

3 Dylai pryniant gweithgareddau'r Penodedig sicrhau cyn belled â phosibl nad oes gan gontractwr presennol unrhyw fantais gystadleuol dros ddarpar gontractwyr eraill.

4 Mae'n rhaid i bryniant gweithgareddau'r Penodedig hwyluso'r datblygiad o farchnad hollol gystadleuol i ddarparu gwasanaethau allanol sydd yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau fel ymgymerwr dwr a charthffosiaeth; a dangos bod ganddo reolaeth lawn o'i holl asedau a'r gallu i gyflawni ei swyddogaethau bob amser fel ymgymerwr dwr a charthffosiaeth (gan gynnwys yr adegau hynny pan fo perfformiad contractwr yn torri ei rwymedigaethau neu pan fo angen newid contractwr am unrhyw reswm).

5(1) Bydd y Penodedig yn cyflwyno Cynllun Pryniant i'r Cyfarwyddwr, heb fod yn hwyrach na [ ], sy'n cynnwys yn fanwl o leiaf y tair blynedd ariannol olynol. Ar ôl hynny, bydd y Penodedig yn cyflwyno heb fod yn llai aml na phob 18 mis Cynllun Pryniant diwygiedig a diweddaredig. Bydd y Cynllun yn gosod allan sut mae'r Penodedig yn bwriadu cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cynradd ym mharagraffau 2 i 4 o'r amod hwn.

(2) Heb ymrwymiad i ail baragraff is-baragraff (1) uchod, gall y Cyfarwyddwr ar unrhyw adeg ofyn i'r Penodedig gyflwyno Cynllun Pryniant diwygiedig os, yn dilyn unrhyw adroddiadau a gyflwynir dan baragraff 9 isod, mae'n ymddangos iddo bod perfformiad y Penodedig o'i rwymedigaethau ym mharagraffau 2 i 4 uchod yn anfoddhaol.

6. Bydd y Cynllun Pryniant yn cynnwys y canlynol:

6(1) Esboniad o'r gweithgareddau y mae'r cynllun yn perthyn iddynt;

6(2) Asesiad o gystadleuaeth gyfredol y farchnad (marchnadoedd) sy'n gysylltiedig â phob un o'r Gweithgareddau Rheoledig, lle'n berthnasol, gan ei fod yn bosibl eu bod yn cael eu gwneud yng ngwahanol rannau o'i Ardal Cyflenwad Dwr neu ei Ardal Gwasanaeth Carffosiaeth;

6(3) Esboniad o nifer, cymysgedd a math y contractau sydd yn cael eu gosod ar hyn o bryd neu a fwriedir eu gosod dan y cynllun, y mae'n rhaid iddynt fod yn gysylltiedig ac yn gyson â'r asesiad sydd ei angen dan 6(2);

6(4) Manylion o'r broses(au) pryniant, termau ac amodau'r contract, cymalau a manylebau. Dylai'r rhain gael eu cefnogi gan esboniad o sut mae'r Penodedig yn bwriadu sicrhau ei fod yn cadw rheolaeth gywir ac effeithiol dros waith y darpar gontractwr. Dylid talu sylw penodol at y gofynion rheoledig sy'n ymwneud ag ansawdd dwr yfed (a materion cysylltiedig), gwarchod yr amgylchedd, darparu gwasanaeth dilys i gwsmeriaid a chydymffurfio â chyfarwyddyd y Cyfarwyddwr.

6(5) Manylion o sut fydd y Penodedig yn sicrhau y bydd ei asedau, sydd i'w gweithredu gan unrhyw gontractwr, yn cael eu cynnal yn gywir er mwyn darparu gwasanaeth cyson neu well i gwsmeriaid.

7. Ar yr un adeg ag y bydd y Penodedig yn cyflwyno'r Cynllun Pryniant i'r Cyfarwyddwr, bydd yr Adroddwr yn cyflwyno adroddiad sy'n asesu dichonolrwydd a chyflawnrwydd y Cynllun Pryniant yn sgil pwrpas a darpariaethau cyffredinol yr amod hwn.

8. Bydd y Penodedig yn darparu copi o'r Cynllun Pryniant cyfredol a chrynodeb o'r adroddiad ar y Cynllun a baratowyd gan yr Adroddwr dan gymal 7, ar gais i unrhyw unigolyn neu gorff.

9. Ar yr un pryd ag y bydd y Penodedig yn cyflwyno ei ddatganiadau cyfrifeg ac ar adegau eraill yn ôl gofyn y Cyfarwyddwr, mae'n rhaid iddo gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr ar ei weithgareddau pryniant.

10. Bydd yr adroddiad yn gosod allan graddau ei gydymffurfiad â'r Cynllun Pryniant, ynghyd ag amserlen lawn o nifer a chynnwys y contractau a osodwyd neu weithgareddau sydd wedi eu prynu'n fewnol.

11. Ymhob achos o ddiffyg cydymffurfiad â'r Cynllun Pryniant, mae'n rhaid i'r adroddiad osod esboniad llawn o'r rhesymau a'r mesurau a gymerwyd neu a gynigiwyd i wella pob diffyg.

12. Bydd pob adroddiad i'r Cyfarwyddwr yn cael ei arolygu gan Adroddwr y Penodedig a fydd yn cyflwyno ei asesiad ei hun i'r Cyfarwyddwr, â chopi i'r Penodedig.

13. Mae'n rhaid i'r Penodedig gydweithredu â'r Adroddwr i'w alluogi i gyflawni'r gweithgareddau sydd eu hangen dan yr amod hwn.

Rheoli gweithrediadau

i. **Cryfhau cymal trwydded presennol F6 sy'n gofyn i gwmnïau dwr gael adnoddau rheoli ariannol a rheolaeth ddigonol ac ardystio hyn yn ffurfiol i Ofwat. Diwygio i ofyn i Dwr Cymru sicrhau bod ganddo systemau digonol o gynllunio a rheoli, ynghyd ag adnoddau rheoli ac ariannol digonol, i gyflawni ei weithgareddau rheoledig. Darperir cyfarwyddyd ar y rheolaeth fewnol leiaf sydd ei hangen gan gwmnïau dwr yn Atodiad A.**

ii. **Diwygiad trwydded sy'n gwahardd Dwr Cymru rhag dirprwyo ei gyfrifoldeb am berfformiad cywir ei swyddogaethau statudol i unrhyw barti arall.**

Ni fydd y Penodedig yn –

> gwneud unrhyw drefniant (contract neu fel arall) y mae ei effaith (gwir neu fwriadedig) yn golygu bod cyfrifoldeb am berfformiad cywir unrhyw un o'i swyddogaethau fel Ymgymerwr Perthnasol yn cael ei drosglwyddo neu ei ddirprwyo yn gyfan gwbl neu'n rhannol i unrhyw unigolyn arall; neu
>
> os caiff ei erlyn am unrhyw drosedd honedig yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Diwydiant Dwr 1991 (neu Ddeddf Adnoddau Dwr 1991) neu unrhyw rheoliadau a wnaed ganddi (y naill Ddeddf) yr honnir y'i cyflawnwyd

mewn perthynas ag unrhyw un o'i swyddogaethau fel y Penodedig yr oedd ei berfformiad ar yr adeg berthnasol, wedi ei ddiogelu gan unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw unigolyn arall,-

codi unrhyw amddiffyniad o ddiwydrwydd ac eithrio i'r graddau y byddai'r amddiffyniad wedi bod ar gael petai'r contract neu drefniant arall gyda'r unigolyn arall heb ei wneud.

Cryfhau clustnodi ariannol

i. **Diwygiad trwydded newydd sy'n gwahardd Dwr Cymru rhag dal neu gael buddsoddiadau o unrhyw fath heblaw am fuddsoddiadau mewn cwmnïau sy'n cyflawni un neu fwy o'r gweithgareddau a ganiateir i Dwr Cymru (ond dim gweithgaredd arall), is-gwmnïau a ffurfiwyd at bwrpas codi cyllid ar gyfer gweithgareddau Dwr Cymru a ganiateir yn unig a buddsoddiadau a gafwyd fel mater o drefn yng ngweithrediadau rheoli trysorlys Dwr Cymru a bod ganddo'r rheolaeth risg priodol a rheolau eraill mewn lle.**

ii. **Diwygiad trwydded yn gwahardd Dwr Cymru neu unrhyw un o is-gwmnïau eraill Glas rhag cyflawni gweithgareddau heblaw am y rhai sydd eu hangen neu sy'n gysylltiedig ag ymgymerwr dwr a charthffosiaeth.**

iii. **Diwygiad trwydded sy'n gofyn am wahardd codi unrhyw gyllid ar gyfer y busnes rheoledig ar dermau sy'n cynnwys cyfamodau diffyg croes.**

Ni fydd y Penodedig, heb ganiatâd y Cyfarwyddwr (ni ddylid gwrthod neu oedi caniatâd o'r fath yn afresymol) yn mynd i unrhyw gytundeb nac ymrwymo i rwymedigaeth groes-ddiffyg neu ganiatáu unrhyw gytundeb neu ymrwymiad sy'n cynnwys rhwymedigaeth croes-ddiffyg i barhau mewn grym.

Lle byddai atebolrwydd dan y rhwymedigaeth groes-ddiffyg yn codi ond ar ddiffyg gan is-gwmni'r Penodedig, gall y Penodedig ganiatáu rhwymedigaeth groes-ddiffyg i barhau'n effeithiol am y cyfnod penodedig gan yr offeryn a greodd ef, cyn belled nad yw ei atebolrwydd posibl yn cynyddu ac na wneir newidiadau yn y termau lle gallai atebolrwydd godi."

iv. **Diwygiad trwydded sy'n gofyn i Dwr Cymru ddefnyddio'i holl ymdrechion rhesymol i gynnal gradd buddsoddiad gorfforedig bob amser.**

Llywodraeth gorfforedig

i **Diwygiad trwydded sy'n gofyn i Dwr Cymru gael ymrwymiad gan Glas y gellir ei orfodi'n gyfreithiol i wahardd Glas rhag gwneud unrhyw newidiadau i'w Femorandwm a'i Erthyglau Cwmni heb ganiatâd Ofwat.**

ii **Diwygiad trwydded sy'n mynnu bod Dwr Cymru yn cael ymroddiad gan Glas y gellir ei orfodi'n gyfreithiol y bydd Glas yn darparu gwybodaeth y gall y Cyfarwyddwr ei ddisgwyl yn rhesymol sy'n ymwneud â gweithgareddau a chyllid Glas.**

iii **Diwygiad trwydded sy'n mynnu bod Dwr Cymru yn cael ymroddiad gan Glas y gellir ei orfodi'n gyfreithiol y bydd Glas yn ei ddarparu â'r wybodaeth hanfodol i ganiatáu Dwr Cymru i gydymffurfio â'i Drwydded.**

iv **Diwygiad trwydded sy'n mynnu bod Dwr Cymru yn cael ymroddiad gan Glas y gellir ei orfodi'n gyfreithiol y bydd Glas yn peidio â gweithredu mewn unrhyw ffordd a fyddai'n arwain at y cwmni dwr yn torri ei drwydded.**

v **Diwygiad trwydded sy'n gofyn i fwrdd Dwr Cymru gydymffurfio â'r Egwyddorion Llyworaeth Dda a'r Côd Arfer Gorau (neu unrhyw ddogfen olynol) fel a gymeradwywyd at bwrpasau Rheolau Rhestru Awdurdod Rhestru'r DU.**

vi **Diwygiad trwydded sy'n gofyn i fwrdd Dwr Cymru gael mwyafrif o gyfarwyddwr anweithredol.**

Bydd y cwmnïau hynny sy'n darparu'r ymrwymiadau yn sicrhau y bydd Bwrdd y Penodedig bob amser yn cynnwys heb fod yn llai na thri chyfarwyddwr annibynnol, anweithredol, sef unigolion cydnabyddedig â phrofiad perthnasol. Bydd ganddynt gysylltiadau a gwybodaeth o'r ardaloedd y mae'r Penodedig yn darparu gwasanaethau dwr a charthffosiaeth ar eu cyfer a dealltwriaeth o fuddiannau cwsmeriaid y Penodedig a sut y gellir parchu a diogelu'r rhain.

<u>Argaeledd gwybodaeth farchnad a gwybodaeth arall</u>

i **Diwygiad trwydded sy'n mynnu bod Dwr Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â'i sefyllfa ariannol a masnachol a chanlyniadau ei weithrediadau yn unol â'r Rheolau Rhestru ar gyfer cwmni â chyfranddaliadau cyffredinol ar Gyfnewidfa Stoc Llundain.**

Bydd y Penodedig yn cyhoeddi gwybodaeth am ei ganlyniadau blynyddol dros dro a therfynol ar yr adegau hyn ac ar adegau eraill yn unol â Rheolau Rhestru Cyfnewidfa Stoc Llundain y mae angen eu cyhoeddi gan gwmni y mae ei gyfranddaliadau cyffredinol yn cael eu rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain. Yn ychwanegol, bydd y Penodedig yn cyfarfod â'r pwyllgorau defnyddwyr perthnasol yn flynyddol i drafod ei berfformiad gwaith dros y flwyddyn ariannol flaenorol a'i raglen buddsoddiad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

ii **Diwygiad trwydded sy'n mynnu bod Dwr Cymru yn cynnal rhestr o offeryn ariannol Dwr Cymru (naill ai bond â chwpon sy'n gysylltiedig â gradd neu gyfranddaliad dewisol).**

Bydd y Penodedig yn cynnal rhestr o offeryn ariannol (bond neu gyfranddaliadau dewisol) ar Gyfnewidfa Stoc Llundain.

Os yw'r offeryn ariannol y cyfeirir ato yn y paragraff hwn yn fond, bydd ganddo gyfradd llog amrywiol, sy'n gysylltiedig â gradd credyd y Penodedig, fel a gadarnhawyd gan gyfeirio at ddwy asiantaeth graddio annibynnol yn Llundain.

Mae'r rhwymedigaeth yn gymwys oni bai bod y Penodedig yn bodloni'r Cyfarwyddwr bod amodau marchnad yn ei wneud yn amhriodol i'r Penodedig gynnal offeryn ariannol o'r fath.

ATODIAD A

CYFARWYDDYD AR Y RHEOLAETH FEWNOL LEIAF A OFYNNIR GAN YMGYMERWYR DWR

1. Nod

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gosod allan y rheolaeth fewnol leiaf sydd ei hangen ac a ddylid ei defnyddio gan ymgymerwr dwr (neu ymgymerwr dwr a charthffosiaeth) i sichrau a dangos ei fod yn cwrdd â'i rwymedigaethau cyfreithiol a'i fod yn gallu cyflawni ei swyddogaethau. Bydd y cyfarwyddyd hwn yn cael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd yn sgil profiad ac fel arfer ar ôl ymgynghori â'r unigolion â buddiant yn unig.

2. Adroddiad Turnbull

Yn ……, cyhoeddodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr y *Combined Code of the Committee on Corporate Governance* a dilynwyd hyn ym mis Medi 1999 gan Adroddiad Turnbull: *Internal Control – Guidance for Directors on the Combined Code*. Mae'n rhaid i gwmnïau gydymffurfio â'r côd a'r cyfarwyddyd hwn er mwyn diogelu buddsoddiad cyfranddalwyr ac asedau'r cwmni a diwallu'r gofynion ar gyfer rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain.

3. Gwasanaethau Hanfodol a Ddarperir gan Ymgymerwyr Dwr (a Charthffosiaeth)

Mae cyfrifoldebau a dyletswyddau arbennig ymgymerwyr dwr (a charthffosiaeth) sy'n deillio o ddeddfwriaeth dwr yn atgyfnerthu'r angen am fenter fel hon i weithredu â rheolaeth fewnol effeithiol bob amser er mwyn cydymffurfio a chyflawni ei swyddogaethau statudol. Mae gan ymgymerwyr dwr (a charthffosiaeth) ddyletswyddau trwm lle maent yn darparu gwasanaethau hanfodol i gwsmeriaid a/neu'r gymuned.

Gosodir y gwasanaethau hanfodol hyn allan isod.

- Darparu dwr yfed iach i gwrtil eiddo bob cwsmer.
- Symud carthion crai yn ddiogel i'w pwynt gwaredu o ran peryglon iechyd cyhoeddus.
- Trin a chael gwared ar garthion er mwyn lleihau'r risgiau o lygredd difrifol yr amgylchedd dwr i leiafswm derbyniol.

4. Rheolaeth Fewnol Gyffredinol

Lle mae ymgymerwr dwr yn darparu'r holl wasanaethau hanfodol yn uniongyrchol (gweler uchod), bydd cydymffurfiad ag Adroddiad Turnbull yn ddigon i ddangos digonedd ei reolaeth gynllunio a mewnol. Mae'r cydymffurfiad hwn yn rhagamod i ymgymerwr dwr cyn iddo lofnodi ei drwydded F6A flynyddol sy'n ofynnol gan Ofwat. Bydd archwilydd y cwmni dwr, â chymorth ei Adroddwr os yn briodol, yn darparu cadarnhad arbenigol ac annibynnol i Ofwat o'r cydymffurfiad hwn.

5. Rheolaeth Fewnol Ychwanegol Lle Contractir Gwasanaethau Hanfodol Allan

Lle mae ymgymerwr dwr yn mynd i gontract â thrydydd parti i ddaparu unrhyw un neu'r holl wasanaethau hanfodol, bydd angen rheolaeth fewnol ychwanegol (yn ogystal â 4 uchod). Mae ei hangen i ddangos bod rheolaeth uniongyrchol o agweddau allweddol yn cael ei chadw'n ddigonol o ran y gwasanaethau hyn, sy'n gyson â dyletswyddau statudol yr ymgymerwr.

- **Rheolaeth Mewnol Ychwanegol Gwasanaeth Dwr**

(1) Dylid cael *Pwyllgor Ansawdd Dwr (PAD)* sydd â chyfrifoldeb am gynghori ar holl agweddau polisïau'r ymgymerwr am gynnal cydymffurfiad â'r Rheoliadau Dwr Yfed, arolygu perfformiad yn erbyn y rhain yn fisol o leiaf a chyflwyno adroddiad misol o unrhyw dorri safonau ansawdd dwr yfed ac Adroddiad Ansawdd Dwr blynyddol i'r Arolygiaeth Dwr Yfed (cynnwys i'w gytuno gyda'r Arolygiaeth). Dylai aelod anweithredol o'r ymgymerwr gadeirio'r PAD. Dylai aelodaeth y pwyllgor gynnwys cyfarwyddwr gweithredol yr ymgymerwr sy'n gyfrifol am ddarpariaeth gywir y gwasanaethau dwr – Cyfarwyddwr Gweithrediadau, ac arbenigwyr annibynnol o agweddau iechyd y cyflenwad dwr a gwaith y gwasanaeth dwr. Dylai'r bwrdd dderbyn cofndion y PAD a dylid eu hatodi i'r Adroddiad Ansawdd Dwr. Mae'n rhaid tynnu sylw'r DWI ar unwaith i unrhyw benderfyniadau gan y PAD **nad** ydynt yn cael eu cadarnhau a'u gweithredu gan yr ymgymerwr.

(2) Dylai unrhyw gontract ar gyfer arbrofi a dadansoddi ansawdd dwr ffurfiol sy'n ofynnol gan y Rheoliadau fod ar wahân ac yn hollol annibynnol o unrhyw gontract gwasanaeth gweithredol. Dylid anfon canlyniadau'r dadansoddiad at yr ymgymerwr a'r contractwr gwaith.

(3) Mae'n rhaid i bob polisi ac arfer cydymffurfio ag ansawdd dwr fod yn gyfrifoldeb yr ymgymerwr dwr yn unig. Wrth benderfynu'r polisïau ac arferion hyn, mae'n rhaid i'r ymgymerwr ystyried yn llawn y cyfarwyddyd a gyhoeddir gan yr ADY a chyngor y PAD.

(4) Mae'n rhaid i'r contractwr gydymffurfio'n llawn â'r polisïau a'r arferion a bennir gan yr ymgymerwr ac fel a gyfeirir gan y Cyfarwyddwr Gwaith heb ystyried termau'r contract.

(1) Mae'n rhaid i'r contractwr gwaith ddarparu gwybodaeth i'r Cyfarwyddwr Gwaith am ei weithgareddau yn ddyddiol gan y gallent effeithio ar ansawdd dwr a pherfformiad ansawdd dwr pob gwaith trin dwr. Dylid crynhoi'r adroddiadau dyddiol hyn i adroddiad wythnosol o'r contractwr i'r ymgymerwr. Dylid cynnal cyfarfod wythnosol rhwng y Cyfarwyddwr Gwaith (a'i staff) a'r contractwr i arolygu perfformiad a rhaglen flaen y gwaith fel mae'n ymwneud â chynnal cydymffurfiad dwr yfed. Mae'n rhaid i'r contractwr gael cytundeb y Cyfarwyddwr Gwaith i'r rhaglen waith yn wythnosol.

(2) Mae'n rhaid i'r contractwr gwaith hysbysu'r Cyfarwyddwr Gwaith ar unwaith o unrhyw ddigwyddiad sydd angen ei nodi dan Gyfarwyddyd Gwybodaeth 1998 (neu faterion amnewid yn y dyfodol). Ar ôl i hyn ddigwydd, mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Gwaith, neu uwch aelod o'i staff, fodloni ei hun o ran diogelu iechyd cyhoeddus ac osgoi cyflenwi dwr nad yw'n addas i'w yfed. Os nad yw'n fodlon, dylai gymryd rheolaeth uniongyrchol gyda'r awdurdod gweithredol llawn i reoli'r gwaith hyd nes i'r ddigwyddiad ddod i ben. Os bydd angen Tîm Rheoli Toriad Allan, bydd y Cyfarwyddwr Gwaith neu uwch aelod o'i staff yn cael ei gynnwys ynghyd â staff priodol o'r contractwr gwaith.

(3) Gofynnir i Adroddwr yr ymgymerwr arolygu, archwilio, herio ac adrodd i Ofwat a'r ADY ar effeithiolrwydd y rheolaeth fewnol ychwanegol.

- **Rheolaeth Fewnol Ychwanegol Gwasanaeth Carthffosiaeth**

(1) Dylid cael *Pwyllgor Ansawdd Amgylcheddol (PAA)* â chyfrifoldeb dros gynghori ar holl agweddau polisïau'r ymgymerwr ar gyfer cynnal system carthffosiaeth ddiogel a chydymffurfio â chaniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd, arolygu perfformiad yn erbyn y rhain yn fisol o leiaf. Dylai'r PAA gyflwyno Adroddiad Ansawdd Amgylcheddol i Asiantaeth yr Amgylchedd. Dylai aelod anweithredol o'r ymgymerwr gadeirio'r PAA. Dylai aelodaeth y pwyllgor gynnwys cyfarwyddwr gweithredol yr ymgymerwr sy'n gyfrifol am ddarpariaeth gywir y gwasanaethau carthffosiaeth – Cyfarwyddwr Gwaith, ac arbenigwyr annibynnol o'r amgylchedd dwr a gweithrediad diogel systemau carthffosiaeth. Dylai'r bwrdd dderbyn cofndion y PAA a dylid eu hatodi i'r Adroddiad Ansawdd Amgylcheddol. Mae'n rhaid tynnu sylw'r ADY ar unwaith i unrhyw benderfyniadau gan y PAA **nad** ydynt yn cael eu cadarnhau a'u gweithredu gan yr ymgymerwr

(2) Mae'n rhaid i bob bolisi ac arfer cydymffurfio ag ansawdd amgylcheddol fod yn gyfrifoldeb yr ymgymerwr carthffosiaeth yn unig. Wrth benderfynu'r polisïau ac arferion hyn, mae'n rhaid i'r ymgymerwr ystyried yn llawn y cyfarwyddyd a gyhoeddir gan yr ADY a chyngor y PAA.

(3) Mae'n rhaid i'r contractwr gwaith gydymffurfio'n llawn â'r polisïau a'r arferion a bennir gan yr ymgymerwr ac fel a gyfeirir gan y Cyfarwyddwr Gwaith heb ystyried termau'r contract.